*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod hybrid o'r CABINET yn cael ei gynnal ar Dydd Llun, 18fed Medi, 2023 am 10.00 am**

**Dolen gyswllt: Hannah Jones – Uned Busnes y Cyngor**
**(Rhif ffôn. 07385401954)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Gwener, 15 Medi 2023 am 12pm. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

## MATERION I'W TRAFOD

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

Nodwch:
1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2023 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 5 - 14)**

### 3. CYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD

Nodi, er gwybodaeth, y diweddariad i Gynllun Dirprwyo'r Arweinydd.

4. **RHAG-GRAFFU: ADOLYGU'R STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, sy'n rhannu adborth a sylwadau'r Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned yn dilyn ei waith rhag-graffu mewn perthynas â'r Strategaeth Toiledau Lleol yn ystod ei gyfarfod ar 10 Gorffennaf 2023.

**(Tudalennau 15 - 102)**

5. **CYNNIG I YMESTYN GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS CBS RHCT MEWN PERTHYNAS Â MESURAU RHEOLI CŴN**

Derbyn adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd, Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth, sy'n ceisio rhannu gwybodaeth â'r Aelodau am ddeilliannau'r ymgynghoriad cyhoeddus a gafodd ei gychwyn gan y Cabinet mewn perthynas â'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus - Mesurau Rheoli Cŵn ac sy'n gofyn am ganiatâd i ymestyn y 2 Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn yn Rhondda Cynon Taf, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau y mae'r Aelodau'n dymuno'u hystyried wrth ymateb i'r ymgynghoriad.

**(Tudalennau 103 - 184)**

6. **CYNLLUN CYMORTH COSTAU BYW LLEOL 2023**

Derbyn adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen, sy'n rhoi manylion am Gynllun Cymorth Costau Byw Lleol (2023).

**(Tudalennau 185 - 190)**

7. **CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2023-24 HYD AT 2026-27**

Derbyn adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen, sy'n rhoi diweddariad i'r Aelodau am y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2023/24 hyd at 2026/27, yn seiliedig ar y tybiaethau modelu presennol, cyn pennu'r cynigion manwl ar gyfer strategaeth cyllideb 2024/25 yn ystod misoedd yr Hydref.

**(Tudalennau 191 - 246)**

8. **CYNLLUN CORFFORAETHOL Y CYNGOR – BLAENORIAETHAU BUDDSODDI**

Derbyn adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen, sy'n nodi'r sefyllfa o ran cyfle'r Cabinet i gynnig bod y Cyngor yn buddsoddi ymhellach yn ei feysydd â blaenoriaeth, yn unol â'r Cynllun Corfforaethol, "Gwneud Gwahaniaeth" 2020-2024.

**(Tudalennau 247 - 254)**

**9. ADRODDIAD AR GYFLAWNIAD Y CYNGOR – 30 MEHEFIN 2023 (CHWARTER 1)**

Derbyn adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen sy'n rhoi trosolwg i Aelodau o gyflawniad y Cyngor yn ystod tri mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon (hyd at 31 Mehefin 2023), yn ariannol a gweithredol fel ei gilydd.

**(Tudalennau 255 - 286)**

**10. TREFNIADAETH YSGOLION - CYNNIG I GAU YSGOL GYNRADD Y RHIGOS GAN DROSGLWYDDO DISGYBLION I YSGOL GYNRADD HIRWAUN**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, sy'n ceisio caniatâd i gychwyn yr ymgynghoriad trefniadaeth ysgolion statudol perthnasol ac angenrheidiol mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Gynradd y Rhigos, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (Ail Argraffiad) (011/2018) Llywodraeth Cymru; ac ehangu dalgylch Ysgol Gynradd Hirwaun i gynnwys dalgylch presennol Ysgol Gynradd y Rhigos.

**(Tudalennau 287 - 332)**

**11. YMGYNGHORIAD AR Y CYNIGION I AD-DREFNU DARPARIAETH DOSBARTHIADAU CYNNAL DYSGU PRIF FFRWD - ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YN RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant sy'n rhoi gwybod i'r Aelodau am ganlyniadau'r ymgynghoriad diweddar ynglŷn â'r cynnig i ad-drefnu darpariaeth dosbarthiadau cynnal dysgu prif ffrwd yn Rhondda Cynon Taf.

**(Tudalennau 333 - 454)**

**12. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD**

"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

**13. CAFFAEL TIR I'R DWYRAIN O RODFA CENARTH, CWM-BACH, ABERDÂR.**

Derbyn adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a'r Cyfarwyddwr Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth, sy'n ceisio awdurdod i gaffael budd rhydd-ddaliadol tir i'r dwyrain o Rodfa Cenarth, Cwm-bach, gan gynnwys y tir gerllaw. Cyfeirir at y darn yma o dir fel 'Tomen y Twnnel' (Tunnel Tip), Cwm-bach.

**(Tudalennau 455 - 464)**

**14. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**<u>Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</u>**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd B Harris

**Swyddogion:** Paul Mee, Prif Weithredwr
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo’r Cyngor
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau’r Gymuned
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Roger Waters, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Rheng-flaen
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu
Neil Elliott, Cyfarwyddwr Dros Dro'r Gwasanaethau Cymdeithasol